## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Yr oedd Rheoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999 yn darparu ar gyfer talu grantiau yn gymhellion i annog mwy o bobl i ddilyn cyrsiau ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon yn y coleg i addysgu mathemateg neu wyddoniaeth ar lefel uwchradd. Mae Rheoliadau 1999 yn cael eu diddymu gan y Rheoliadau hyn, ac eithrio yn achos y rhai sydd eisoes wedi cael taliad grant o dan Reoliadau 1999 cyn 22 Medi 2000.

O dan y Rheoliadau newydd hyn, gall grantiau cymhelliant gael eu talu mewn perthynas â chyrsiau o'r fath ar gyfer addysgu pob pwnc. Os caiff person unrhyw randaliadau grant mewn perthynas â chwrs mewn sefydliad yn Lloegr y mae grantiau cymhelliant yn daladwy ar ei gyfer o dan drefniadau cyfochrog, mae'r Rheoliadau yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i dalu unrhyw randaliadau eraill y byddai gan y person hwnnw hawl i'w cael yn rhinwedd y Rheoliadau hyn pe bai wedi cwblhau cwrs yng Nghymru y telid grant mewn perthynas ag ef o dan y Rheoliadau hyn.

Mae yn y Rheoliadau ddarpariaeth gwbl newydd sy'n fodd i grantiau gael eu talu i annog ysgolion i gyflogi athrawon graddedig a'u hyfforddi.

Mae yna esboniad manylach ar y Rheoliadau isod.

Mae Rheoliadau 1999 yn cael eu diddymu, ond bydd unrhyw berson sydd wedi cael taliad o dan y Rheoliadau hynny yn dal yn cael ei gynnwys o dan y Rheoliadau hynny (RHEOLIAD 1).

Mae RHEOLIAD 2 yn cynnwys diffiniadau o dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau.

Gall grantiau gael eu talu yn gymhellion mewn perthynas â phersonau sy'n gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr er mwyn iddynt ymgymryd â hyfforddiant ôl-raddedig i athrawon mewn coleg i addysgu unrhyw bwnc (RHEOLIAD 3).

Yn RHEOLIAD 4 nodir nifer o achosion lle na all grant gael ei dalu o dan reoliad 3.

Mae RHEOLIAD 5 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu grant o dan reoliad 3 ar yr amod ei bod yn ofynnol ei ad-dalu o dan amgylchiadau penodedig.

Mae RHEOLIAD 6 yn darparu mai'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n penderfynu ar swm y grant, a all gael ei dalu mewn un swm neu mewn rhandaliadau (y gall rhai ohonynt gael eu gohirio tan ar ôl i'r person ymgymhwyso yn athro neu'n athrawes ac ymgymryd â swydd addysgu).

Gall taliadau cymhelliant gael eu talu i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i'w hannog i gyflogi athrawon graddedig a'u hyfforddi o dan y cynllun a elwir y "Rhaglen Athrawon Graddedig" (RHEOLIAD 7).